

Y Gymraeg a'r Rhwydweithiau Cymdeithasol

Mentrau Iaith Cymru
2014



Noddwyd gan BT Cymru

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
1. Cefndir	6
1.1 Mentrau Iaith Cymru	6
1.2 Yr Ymchwil	6
2. Nod a Chylch Gorchwyl	7
2.1 Pwrpas yr Ymchwil	7
2.2 Cyfyngiadau	7
2.3 Ymchwil Arall	7
3. Amcanion a Methodoleg	9
4. Dadansoddiad o'r Wybodaeth a Gasglwyd	10
4.1 Prif Ganfyddiadau	10
4.2 Holiadur: Dadansoddiad Pellach	11
i. Gwybodaeth Proffil	11
ii. Defnydd Iaith ym Mywyd Bob Dydd	12
iii. Defnydd Iaith ar y Rhwydweithiau Cymdeithasol	12
iv. Pwysigrwydd Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg ar y Rhwydweithiau	15
v. Newid Arferion ar y Rhwydweithiau: Ffactorau a Chyfleodd i Ddylanwadu	16
4.3 Grwpiau Ffocws	20
i. Profiadau Personol	20
ii. Beth fyddai'n Cymell Newid Iaith ar y Rhwydweithiau?	22
iii. Enghreifftiau o Arfer Da	23
Atodiad 1: Cwestiynau'r Holiadur	24
Atodiad 2: Ymatebion i'r Holiadur	27

Crynodeb Gweithredol

Mae Mentrau Iaith Cymru wedi adnabod yr angen am ymchwil penodol am ddefnydd iaith pobol ar y rhwydweithiau cymdeithasol er mwyn i fedru dylanwadu ar eu defnydd iaith yn y dyfodol. Cynhaliwyd yr ymchwil gyda 400 o bobl ar ddechrau 2014 gyda nawdd gan BT Cymru.

Rydym yn awyddus i wybod mwy am dueddiadau ieithyddol defnyddwyr y rhwydweithiau cymdeithasol, er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i ni a mudiadau a sefydliadau eraill weithredu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol.

Casgliadau

Mae'r ymchwil yn cadarnhau pethau roedden ni wedi rhagweld, bod amrywiaeth eang yn faint o Gymraeg sydd yn cael ei ddefnyddio gan siaradwyr rhugl yn gymdeithasol, ac ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn benodol. Mae'r gwaith yn cadarnhau'r hyn rydym wedi gweld a chlywed yn anecdotaidd o ran ffactorau sy'n rhwystro a / neu gymell y defnydd o'r Gymraeg ac yn dangos patrwm tebyg i ddefnydd gan siaradwyr yn y byd go iawn.

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod llawer o waith i'w wneud i newid agweddau ac arferion unigolion o ran eu defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae lefelau uchel o ruglder gan yr ymatebwyr ac mae'r ymchwil yn dangos mai 75% ohonyn nhw sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Er bod y canran hwn yn gymharol uchel, rhaid i ni ystyried y 25% nad ydyn nhw'n defnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau fel arfer. Wrth ystyried mai siaradwyr Cymraeg rhugl, â defnydd rheolaidd o'r Gymraeg yn eu bywydau "go iawn" yw'r bobl a gymerodd rhan yn ein hymchwil yn bennaf, mae'r ffaith bod tua chwarter ohonynt ddim yn defnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau fel arfer yn awgrymu'n gryf bod angen gweithredu i ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau.

Yn galonogol, mae 95.2% o bobl wnaeth ddatgan eu bod nhw am newid eu defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol yn dymuno newid trwy ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Mae'r awydd gan bobl felly i newid, ond mae nifer o ffactorau yn effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg, sydd eto yn debyg i'r ffactorau a rhwystrau sy'n bodoli yn y byd go iawn.

Mae rhai ffactorau mae modd i ni ddylanwadu arny'n nhw sydd yr un pethau ac yn y byd go iawn e.e. annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, normaleiddio'r defnydd ohoni a rhannu arfer da gyda mudiadau a sefydliadau.

Mae defnydd unigolion o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn ddibynnol ar ddefnydd iaith gan eraill, yn cynnwys unigolion, sefydliadau, mudiadau a chwmnïoedd ym mhob sector.

Mae'n amlwg o'r gwaith ymchwil bod ffactorau eraill sy'n unigryw i'r byd digidol e.e. cwmnïau meddalwedd / aps megis twitter, snapchat heb ddatblygu rhyngwynebau yn y Gymraeg.

O'n hymchwil ni y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau yw:

- defnydd iaith eraill a gallu iaith y "cynulleidfa"
- diffyg datblygiadau technoleg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys rhyngwynebau Cymraeg
- lefelau hyder a sgiliau yn y Gymraeg

- diffyg cynnwys cyfrwng Cymraeg, i gymharu â chynnwys cyfrwng Saesneg

Rhaid cydnabod y byddwn o hyd un cam ar ei hol hi gyda hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Tra ein bod ni nawr yn edrych ar y defnydd o'r Gymraeg ar Facebook a Twitter gan y mwyafrif o unigolion, mae pobl ifanc yn symud tuag at ddefnyddio dulliau a llwyfannau eraill newydd i gyfathrebu, gan ddefnyddio platfformau newydd o hyd.

Argymhellion

Mae angen gwaith pellach nawr ac yn y dyfodol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol fydd yn normaleiddio'r defnydd ohoni, codi hyder unigolion i ddefnyddio'r rhwydweithiau yn y ddwy iaith, ac arwain at fwy o gynnwys a mwy o ddefnydd naturiol o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau fel cyfrwng cyfathrebu pwysig yn yr oes ddigidol.

Mae angen gosod targed cenedlaethol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol - gan unigolion, mudiadau a sefydliadau. Mae angen buddsoddiad amser ac ariannol i wneud y gwahaniaeth sydd angen yn y maes hwn.

Mae angen gwaith ymchwil a datblygu pellach i edrych ar beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddylanwadu ar agweddau unigolion tuag at ddefnyddio mwy o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae angen edrych ar fodolau rhyngwladol llwyddiannus i annog unigolion a sefydliadau i ddefnyddio ieithoedd lleiafrifol yn llwyddiannus ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Yn yr un modd mae'r meysydd marchnata cymdeithasol, newid ymddygiad a chyfathrebu hyperleol yn feysydd y mae angen ymchwilio ymhellach i ddysgu gwersi ac egwyddorion y gall gael eu trosglwyddo i'r maes hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae angen gweithio yn y tymor hir i newid agweddau, ac adolygu yn rheolaidd er mwyn cadw beth rydan ni yn ei wneud yn berthnasol a sicrhau bod y gwaith yn parhau i gyrraedd pobl yn effeithiol.

Mae angen dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd iaith cwmnïau preifat, sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol i gysylltu yn y Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Er mai annog mwy o ddefnydd naturiol, cymdeithasol, o'r Gymraeg gan unigolion yw'r prif nod rhaid cydnabod dylanwad cynnwys - hysbysebion, postadau a thudalennau - mudiadau a sefydliadau sy'n creu cynnwys i bobl rhannu. Gallai mudiadau a sefydliadau arwain y ffordd yn hyn o beth. Mae angen rhannu arfer da am ddefnydd y Gymraeg gan sefydliadau yn genedlaethol ar ôl cyfnod o ymchwil.

Mae angen cydweithio gyda phartneriaid sydd yn gweithio yn y maes hyrwyddo'r Gymraeg. Trwy gydweithio mae modd i ni gyrraedd cynulleidfia ehangach a lluosu ein hymdrechion.

Mae angen dylanwadu ar y cwmnïau technoleg mawr a bach ar lefel rhyngwladol er mwyn datblygu mwy o ryngwynebau Cymraeg. Mae'r datblygiadau yn y maes technoleg cyfrwng Cymraeg hyd yn hyn - gan gynnwys rhyngwynebau, gwiriwr sillafu, cyfieithu a chynnwys cyfrwng Cymraeg (e.e. penderfyniad Amazon i werthu e-lyfrau) - wedi codi proffil y Gymraeg ar-lein, ond mae'n hanfodol bod datblygiadau cyfrwng Cymraeg yn parhau ac ehangu yn y dyfodol.

1. Cefndir

1.1 Mentrau Iaith Cymru

Mae Mentrau Iaith Cymru yn fudiad sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Iaith Lleol dros Gymru. Mae 22 Menter Iaith yng Nghymru sy'n gweithredu yn lleol fel mudiadau gwirfoddol, cymunedol, sy'n gweithio i ddatblygu, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Fel mudiad sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Iaith Lleol mae Mentrau Iaith Cymru yn gweithredu yn genedlaethol dros y Mentrau a'u gwaith er budd y Gymraeg yng nghymunedau Cymru. Ceir mwy o wybodaeth am gefndir Mentrau Iaith Cymru ar www.mentrauaith.org

1.2 Yr Ymchwil

Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn hanfodol os yw'r Gymraeg yn mynd i oroesi fel iaith gymunedol: mae cynyddu'r defnydd ohoni o fewn y cymunedau a rhwydweithiau ar-lein yn allweddol i sicrhau twf a datblygiad i'r Gymraeg yn ein cymunedau ar lawr gwlad yn y dyfodol.

Mae mudiadau Cymraeg eraill a sefydliadau yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd sicrhau datblygiadau cyfrwng Cymraeg yn y maes technoleg a'r rhwydweithiau cymdeithasol, ac mae rhai gweithgareddau ac ymyriadau penodol yn gweithredu eisoes â'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar-lein. Yn ogystal mae Llywodraeth Cymru yn datgan pwysigrwydd cyfryngau digidol a datblygiadau cyfrwng Cymraeg yn y maes technoleg yn Strategaeth y Gymraeg, Iaith Fyw: Iaith Byw: "Er mwyn cryfhau seilwaith y Gymraeg, mae ymchwil yn awgrymu bod angen i ymgyrchoedd marchnata a hybu mewn perthynas â'r Gymraeg dargedu grwpiau iau, bod angen manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg fel y we a'r cyfryngau cymdeithasol newydd, a bod angen ei gwneud hi'n haws i fanteisio ar y cyfryngau a'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael, a'u gwneud yn fwy perthnasol. Mae gan yr holl wahanol ffurfiau ar y cyfryngau ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg."

Fe ymgwymerwyd â'r gwaith ymchwil hwn felly er mwyn casglu gwybodaeth am, a dadansoddi a deall yn well, y ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg gan unigolion ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn benodol fel cyfrwng dylanwadol a holl bwysig fydd yn cyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol.

2. Nod a Chylch Gorchwyl

2.1 Pwrpas yr Ymchwil

Pwrpas yr ymchwil oedd ymchwilio i'r defnydd o'r Gymraeg gan unigolion ar y rhwydweithiau cymdeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter er mwyn deall yn well y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith unigolion ar y rhwydweithiau cymdeithasol amrywiol fydd yn ein paratoi i benderfynu sut i weithredu yn y dyfodol trwy brosiectau neu ymyraethau posib i ddylanwadu'n bositif ar ddefnydd iaith unigolion ar y rhwydweithiau cymdeithasol.

2.2 Cyfyngiadau

Rhaid cydnabod nad yw sgôp yr ymchwil mor eang i alluogi dod i gasgliadau pendant ynglŷn â defnydd iaith unigolion ar y rhwydweithiau cymdeithasol a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hynny. Yn wir, mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith yn niferus, yn gymhleth ac yn anodd i'w mesur. Yn ogystal adnoddau cyfyngedig oedd ar gael ar gyfer y gwaith ymchwil, a gyda mwy o adnoddau mae modd gwneud ymchwil mwy dwys gyda mwy o ymatebwyr a chyfranogwyr.

Cydnabyddir hefyd bod cyfyngiadau i holiaduron fel teclyn i gasglu gwybodaeth gan unigolion oherwydd bias priodoldeb cymdeithasol. Yn yr un modd mae gwybodaeth ansoddol, ddisgrifiadol ac anecdotaidd a gesglir gan grwpiau ffocws a sylwadau ysgrifenedig trwy'r holiadur, er yn werthfawr, yn anodd i'w dadansoddi a dod i gasgliadau pendant.

Mae'n werth hefyd tynnu sylw at y ffaith ei bod hi'n heriol i dynnu cymariaethau ag astudiaethau ymchwil eraill oherwydd bod y fethodoleg yn amrywio (h.y. rhwng astudiaethau meintiol ac ansoddol, grwpiau ffocws, cyfweiliadau un i un). Mae'r nifer cymharol fach o astudiaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd sy ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau pendant a chymharu rhyngddynt hefyd.

2.3 Ymchwil Arall

O gychwyn yr ymchwil rydym wedi sicrhau ein bod yn adeiladu ar yr ymchwil sydd wedi ei wneud yn barod ar y defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Hyd heddiw nid oes llawer o ymchwil sydd wedi ei wneud yn y maes hwn, gyda rhan sylweddol o'r ymchwil hwnnw yn canolbwyntio ar ddefnydd iaith gan bobl ifanc. Er bod pobl ifanc yn allweddol i sicrhau twf a datblygiad y Gymraeg yn y dyfodol mae'r Mentrau Iaith yn bodoli er mwyn cynnig gwasanaethau a chefnogaeth i bobl o bob oedran. Roedd ein hymchwil yn gyfle da felly i ofyn i bobl o wahanol oedrannau am eu harferion iaith ar y rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae rhai astudiaethau arwyddocaol wedi eu cynnal yn ddiweddar sy'n bwysig i'w hystyried, pob un ohonynt yn dynodi'r rhwydweithiau cymdeithasol a'r cyfryngau ar-lein fel meysydd holl bwysig y dylid cynllunwyr iaith eu hystyried yn nawr ac yn y dyfodol.

Yn 2013 fe gyhoeddwyd astudiaeth bwysig gan Beaufort Research, wedi ei gomisiynu gan Llywodraeth Cymru, S4C a BBC Cymru, sef *Ymchwilio i Ddefnydd Iaith Siaradwyr Cymraeg yn eu Bywydau Bob Dydd*. Nid yw'r gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ddefnydd iaith siaradwyr

Cymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn unig, ond fe nodir arwyddocâd y we a'r rhwydweithiau cymdeithasol a chyfryngau ar-lein eraill ym mywydau unigolion ac fe ddarperir gwybodaeth werthfawr ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau hynny a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith.

Mae astudiaethau eraill wedi eu cyhoeddi yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gan D. Cunliffe, C. Prys a D. Morris, gan gynnwys *Social Networks and Minority Languages Speakers: The use of Social Networking Sites among Young People* (2012) a *Young Bilinguals' Language Behavior in Social Networking Sites: The use of Welsh on Facebook* (2013). Mae'r ddwy astudiaeth hon yn canolbwyntio ar ddefnydd iaith pobl ifanc ar y rhwydweithiau ac unwaith eto maent yn dynodi'r rhwydweithiau cymdeithasol a chyfryngau digidol eraill fel meysydd pwysig y dylai cynllunwyr iaith ddylanwadu arnynt yn y dyfodol.

Gan ystyried yr astudiaethau uchod mae elfennau o'n hymchwil ni cyffwrdd ar elfennau tebyg ond hefyd mae agweddau gwahanol, sef:

- Mae ein hymchwil ni yn cynnwys pobl o bob oedran. Er bod defnydd iaith pobl ifanc yn holl bwysig yng nghyd-destun cynllunio ieithyddol ehangach nid yw'r rhwydweithiau cymdeithasol pellach yn faes i bobl ifanc yn unig.
- Mae ein hymchwil ni yn cynnig cyfle ychwanegol i gasglu gwybodaeth ac adborth ansoddol pellach gan unigion mewn perthynas â'u defnydd iaith ar y rhwydweithiau cymdeithasol a'r rhesymau a ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd.
- Mae ein grwpiau ffocws wedi cynnig cyfle newydd i weithwyr y Mentrau rannu profiadau a gwybodaeth anecdotaidd ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol, gan dynnu ar brofiadau lleol a phersonol.
- Trwy'r uchod mae'r gwaith felly yn ychwanegu at y gwaith ymchwil sydd wedi eu cynnal gan eraill yn ddiweddar ac yn cyfrannu tuag at yr ymdrechion i ddeall yn well y defnydd presennol o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol.

3. Amcanion a Methodoleg

Yn dilyn cyfnod o ystyried ymchwil arall yn y maes fe luniwyd holiadur electronig ar y teclyn ar-lein Survey Monkey oedd yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i unigolion fydd yn rhoi trawstoriad eithaf clir o'u defnydd iaith yn eu bywydau bob dydd, eu cefndir, gwybodaeth broffil eu harferion iaith ar-lein, a'r ffactorau sy'n effeithio ar ddefnydd iaith.

Fe baratowyd yr holiadur yn ddwyieithog, gan sicrhau hefyd y defnydd o iaith syml a chlr i bob cwestiwn. Ceir copi o gwestiynau'r holiadur yn Atodiad 1. Fe luniwyd yr holiadur gyda'r bwriad o gasglu data meintiol yn bennaf, er i ni gasglu sylwadau ansoddol ar gyfer nifer o gwestiynau sy'n ymwneud â defnydd iaith, rhwystrau ac adborth disgrifiadol pellach ynglŷn â'r Gymraeg a'r rhwydweithiau cymdeithasol.

Fe gynhaliwyd yr holiadur rhwng mis Ionawr a Chwefror 2014, gyda 400 o bobl ar draws Cymru yn ei gwblhau. Roedd y nifer derfynol a gwblhawyd yr holiadur yn llawer uwch na'r targed o 200 o bobl oedd gennym.

Yn ogystal â'r holiadur electronig fe gynhaliwyd grwpiau ffocws gyda 30 o Swyddogion Maes y Mentrau Iaith ym mis Chwefror 2014.

4. Dadansoddiad o'r Wybodaeth a Gasglwyd

4.1 Prif Ganfyddiadau

4.1.1 Arwyddocâd y Rhwydweithiau Cymdeithasol

- Mae'r rhwydweithiau cymdeithasol a'r defnydd o'r Gymraeg arnynt yn faes holl bwysig y mae angen i gynllunwyr iaith, gan gynnwys mudiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ystyried a chynllunio ar ei gyfer nawr ac yn y dyfodol.
- Mae 74.2% o bobl a holwyd yn ystyried cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol yn "*bwysig iawn*".

4.1.2 Defnydd iaith

- Fel y disgwyliwyd, mae'r iaith a ddefnyddir gan unigolion ar-lein â ffrindiau a chysylltiadau yn adlewyrchu defnydd iaith yn y byd go iawn.
- Gan ystyried lefelau uchel o'r defnydd o'r Gymraeg gan y 400 o bobl a gymerodd rhan yn yr holiadur yn eu bywydau bob dydd, mae eu defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn gymharol isel, gyda dros chwarter y bobl a holwyd yn dweud eu bod nhw'n defnyddio "*Saesneg pob tro*" neu "*mwy o Saesneg na Cymraeg*" ar y rhwydweithiau.
- Yn ogystal â'r uchod fe nododd 49.5% o'r ymatebwyr eu bod nhw'n ysgrifennu ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg bob dydd, sydd yn is na'r lefel o ddefnydd iaith trwy ysgrifennu e-byst, nodiadau personol a dogfennau eraill ar y cyfrifiadur.
- Yn ogystal mae'r wybodaeth ansoddol a gasglwyd yn ystod yr ymchwil yn awgrymu bod rhan sylweddol o siaradwyr Cymraeg ddim yn defnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol fel arfer.

4.1.3 Newid Arferion a Chynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg

- Yn galonogol, mae 95.2% o bobl wnaeth ddatgan eu bod nhw am newid eu defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol yn dymuno defnyddio mwy o'r Gymraeg.
- Er bod cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan unigolion ar lefel personol ar y rhwydweithiau yn allweddol mae angen i sefydliadau a chwmnïau ym mhob sector gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg eu hunain trwy eu rhwydweithiau cymdeithasol a phlatformau eraill ar-lein.

4.1.4 Ffactorau sy'n Effeithio'r Defnydd o'r Gymraeg a Chyfleoedd i Ddylanwadu

- Fe roddodd y prosiect nifer o gyfleoedd i holi ymatebwyr ynglŷn â'r ffactorau a rhwystrau sy'n effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau, a gallwn grwpio'r ffactorau hyn i mewn i ddau brif grŵp:
 - Ffactorau sy'n debyg i'r ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg *yn y byd go iawn*, sef: defnydd a gallu ieithyddol pobl eraill, hyder a sgiliau iaith yr unigolion.
 - Ffactorau sy'n *fwy unigryw i'r rhwydweithiau cymdeithasol*, sef: technoleg, natur y

cyfrwng (h.y. y ffaith bod y rhwydweithiau yn galw i gyfathrebu'n bennaf trwy ysgrifennu a'r ffaith ei fod yn fodd o gyfathrebu sy'n gyhoeddus)

- O'r holl rwystrau a nodwyd gan ymatebwyr i'r holiadur a'r grwpiau ffocws fel nodwyd y canlynol fel y rhai mwyaf dylanwadol:
 - Defnydd / gallu ieithyddol pobl eraill
 - Technoleg
 - Hyder a sgiliau iaith
 - Beirniadaeth a'r ofn o feirniadaeth
 - Diffyg cynnwys cyfrwng Cymraeg

4.2 Yr Holiadur: Dadansoddiad Pellach

Fe gynhaliwyd holiadur electronig yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2014. Derbyniwyd 400 o ymatebion gan bobl ar draws Cymru gyda chroestoriad da yn ddaearyddol.

Wrth lunio cwestiynau'r holiadur ein bwriad oedd casglu gwybodaeth a data sy'n ymwneud â'r canlynol:

- *Gwybodaeth Proffil*
- *Defnydd iaith (yn gyffredinol)*
- *Defnydd ac Arferion iaith ar y rhwydweithiau cymdeithasol*
- *Rhesymau dros ddefnydd iaith ar y rhwydweithiau*
- *Newid defnydd iaith ar y rhwydweithiau*

Ceir rhestr o gwestiynau'r holiadur yn Atodiad 1. Ceir y data llawn o'r holiadur, ynghyd â siartiau, yn Atodiad 2. Mae crynodeb o'r data a gwybodaeth a gasglwyd isod.

4.2.1 Pwyntiau Allweddol: Gwybodaeth Proffil

Oedran

Roedd nifer helaeth o'r ymatebwyr yn oedolion, gyda 77.8% ohonynt rhwng 25 - 60 oed. Cafwyd ymatebion gan bobl ifanc hefyd, gyda 11.2% o ymatebwyr rhwng 16 - 25 oed.

Rhyw

Oherwydd bod yr holiadur ar agor i'r cyhoedd nid oeddwn yn medru dylanwadu ar bwy oedd yn ei gwblhau, ac felly roedd llawer mwy o ferched wedi ateb yr holiadur i gymharu â dynion, gyda 69.2% o ymatebwyr yn ferched a 30.8% yn ddynion.

Dewis iaith

Roedd 88.5% o'r ymatebwyr wedi ateb yr holiadur yn y Gymraeg, gyda'r gweddill (11.5%) yn ymateb yn Saesneg. Mae'r mwyafrif o bobl mae'r Mentrau yn gysylltiedig â nhw yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr. Roedd yn dda felly i gael ymateb cryf gan siaradwyr Cymraeg gan mai nhw fydd yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Ar yr un pryd roedd yn fuddiol i gael ymatebion cyfrwng Saesneg er mwyn cynnwys dysgwyr neu bobl isel eu hyder yn y Gymraeg.

Rhuglder

Roedd yn bwysig gofyn ynglŷn â rhuglder a sgiliau iaith yr ymatebwyr er mwyn sicrhau eu bod nhw'n medru'r Gymraeg ac i ba safon. Roedd 83% wedi nodi eu bod nhw'n siaradwyr Cymraeg rhugl, gyda 17% yn nodi eu bod nhw naill ai yn dysgu ar hyn o bryd neu wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith i safon uchel.

4.2.2 Defnydd iaith ym Mywyd Bob Dydd

Siarad

O ran defnydd iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd roedd nifer uchel o'r ymatebwyr yn siarad Gymraeg bob dydd yn y gwaith / ysgol (77%), tu allan i'r gwaith / ysgol (63%), gyda'u teulu gartref (75%) neu mewn gweithgareddau eraill (55%).

Darllen

Roedd y data ar gyfer amlder darllen y Gymraeg yn is ar gyfer y cyfryngau traddodiadol, sef llyfrau, cylchgronau a'r papur newydd, na'r rhai ar gyfer y cyfryngau digidol. Dywedodd 25% eu bod yn darllen llyfrau yn y Gymraeg bob dydd; 10.9% eu bod yn darllen cylchgronau a 9.8% y papur newydd. Fodd bynnag o ran darllen ar-lein roedd bron i hanner (41.6%) yn dweud eu bod nhw yn darllen y Gymraeg ar y we bob dydd a dros hanner (58.9%) yn dweud eu bod nhw'n darllen y Gymraeg trwy'r rhwydweithiau cymdeithasol bob dydd.

Ysgrifennu

Cafwyd ffigyrau tebyg i'r uchod ar gyfer ysgrifennu yn y Gymraeg, gyda 62% yn nodi eu bod nhw'n ysgrifennu e-byst yn y Gymraeg bob dydd, 49.5% yn ysgrifennu ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y Gymraeg, 63.7% yn ysgrifennu nodiadau personol a 53.3% yn ysgrifennu dogfennau ar y cyfrifiadur bob dydd. Mae'n arwyddocaol bod y lefel o bobl a holwyd sy'n ysgrifennu ar y rhwydweithiau cymdeithasol bob dydd yn is na'r cyfryngau mwy traddodiadol - er nad yw'n ffigwr isel iawn - gan fod astudiaeth ymchwil arall (Beaufort: 2013) hefyd wedi canfod hyn: "[Mae] cyfrannau uwch o lawer o siaradwyr Cymraeg yn cyfathrebu ar-lein yn Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg [...] Mae defnydd rheolaidd o'r Gymraeg ar-lein yn isel iawn."¹

4.2.3 Defnydd iaith ar y Rhwydweithiau Cymdeithasol


Defnydd iaith gan yr Ymatebwyr

Gofynnwyd cwestiwn yn yr holiadur ynglŷn â defnydd iaith yr ymatebwyr ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Pwrpas y cwestiwn oedd gofyn pa rwydweithiau mae'r ymatebwyr yn eu defnyddio, a pha iaith maent yn tueddu defnyddio.

Mae siart isod yn dangos y data ar gyfer y pedwar rhwydwaith mwyaf poblogaidd, sef Facebook, Twitter, Youtube a LinkedIn.

¹ Beaufort Research, "Ymchwilio i Ddefnydd iaith Siaradwyr Cymraeg yn eu Bywydau Bob Dydd", comisiynwyd gan Llywodraeth Cymru, BBC Cymru ac S4C, 2013, tt. 13-14.

13. Y 4 ateb mwyaf poblogaidd



O'r data mae nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn dweud eu bod nhw'n defnyddio mwy o Gymraeg na'r Saesneg ar Facebook a Twitter, gyda 48.8% yn nodi *Cymraeg pob tro* neu *mwy o Gymraeg na Saesneg* ar gyfer Facebook a 34.4% ar gyfer Twitter. Fodd bynnag mae nifer o'r ymatebwyr hefyd wedi nodi eu bod nhw'n defnyddio *Saesneg pob tro* neu *mwy o Saesneg na'r Gymraeg* ar gyfer y rhwydweithiau hyn, gyda 28.2% yn nodi hyn ar gyfer Facebook a 23% ar gyfer Twitter. Mae'r ffigurau hyn eto yn debyg i'r ffigurau a gafwyd mewn astudiaethau ymchwil eraill

diweddar. Mae yna debygrwydd rhwng y ffigyrau a gasglwyd gennym ac astudiaeth Honeycutt a Cunliffe (2010) a ganfu fod 45% o broffiliau personol ar Facebook sy'n defnyddio'r Gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn unig, ond ar y llaw arall, mae ymchwil Honeycutt a Cunliffe yn canfod bod 29% o siaradwyr Cymraeg byth yn defnyddio'r Gymraeg ar eu proffiliau Facebook o gwbl.


Gan ystyried y canrannau uchel iawn a roddwyd gan yr ymatebwyr yn ein hastudiaeth ni ar gyfer defnydd iaith yn gyffredinol trwy siarad, darllen ac ysgrifennu (cwestiynau 9, 10 ac 11 o'r holiadur) mae'r ffigyrau hyn ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol, yn enwedig Facebook a Twitter, yn gymharol isel.

Yn ogystal mae'r wybodaeth hon ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg ar y ddau brif rwydwaith cymdeithasol, Facebook a Twitter, yn cyd-fynd â'r wybodaeth anecdotaidd a gawsom yn y grwpiau ffocws bod defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau yn isel iawn. Os yw'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol gan siaradwyr Cymraeg rhugl, â defnydd uchel mewn meysydd eraill yn eu bywydau bob dydd yn gymharol isel, mae angen ystyried gwaith ymchwil pellach i ystyried y defnydd gan bobl nad ydyn nhw'n ystyried eu hunain yn rhugl, o bosib y rheini sydd isel eu hyder yn y Gymraeg oherwydd defnydd isel a diffyg cyfleoedd i siarad Cymraeg.

Defnydd iaith gan Siaradwyr Cymraeg eraill

Fe ofynnwyd y cwestiwn ynglŷn â hyn yn bennaf am dri phrif reswm: er mwyn derbyn darlun mwy eang o'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl eraill y mae'r ymatebwyr yn eu hadnabod; i osgoi'r elfen bias priodoldeb cymdeithasol sy'n effeithio ar atebion i holiaduron lle mae pobl yn ateb cwestiynau amdany'n nhw eu hunain a hefyd i gasglu gwybodaeth mwy anecdotaidd, ansoddol ynglŷn â defnydd iaith siaradwyr Cymraeg ar y rhwydweithiau yn gyffredinol.

Fe ofynnwyd y cwestiwn "Ydych chi'n adnabod unrhyw siaradwyr Cymraeg sy ddim yn defnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol?" fel cwestiwn caeedig gyda'r mwyafrif o ymatebwyr, sef 76.1% yn nodi "ydw".



Fel rhan o'r cwestiwn hwn fe roddwyd yr opsiwn i ymatebwyr ymhelaethu ynglŷn â thua faint o siaradwyr Cymraeg maen nhw yn adnabod sy ddim yn defnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau

cymdeithasol trwy gynnig sylwadau disgrifiadol pellach. Allan o 156 o bobl a wnaeth hyn, nododd tua hanner ohonynt fod “nifer helaeth”, “gormod” neu “llawer” o’u ffrindiau a chysylltiadau sy’n medru’r Gymraeg ddim yn ei defnyddio o gwbl ar y rhwydweithiau cymdeithasol:

“Methu cyfri - y rheini sy’n siarad Cymraeg ond yn dewis peidio gyda theulu / ffrindiau”

“Gormod o lawer”

“Llawer iawn o Gymry Cymraeg yn gosod sylwadau uniaith Saesneg ar eu tudalennau Facebook. Dros hanner fy ffrindiau sy’n medru’r Gymraeg!”


“Rhan fwyaf o fy ffrindiau”

Gan ystyried yr adborth ac ymatebion ynglŷn â defnydd iaith gan eraill, ac wrth gymharu â defnydd personol yr ymatebwyr, mae’n ymddangos bod y data yn cefnogi’r wybodaeth anecdotaidd a disgrifiadol a gawsom yn y grwpiau ffocws a hefyd canfyddiadau astudiaethau eraill bod yna nifer fawr o bobl sy’n medru’r Gymraeg sydd ddim yn ei defnyddio ar y rhwydweithiau cymdeithasol.

4.2.4 Pwysigrwydd Cynyddu’r Defnydd o’r Gymraeg ar y Rhwydweithiau Cymdeithasol

Fe ofynnwyd y cwestiwn hwn am ddau brif reswm: yn gyntaf er mwyn asesu i ba raddau oedd yr ymatebwyr yn ystyried cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn bwysig a hefyd fe gynigiodd y cwestiwn cyfle arall i dderbyn adborth ansoddol ynglŷn â sut i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ar y rhwydweithiau yn y dyfodol.

Yn eich barn chi pa mor bwysig yw cynyddu’r defnydd ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol?



Mewn ymateb i’r cwestiwn “Pa mor bwysig yw cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn eich barn chi?” fe nodwyd y mwyafrif helaeth o bobl (74.2%) “pwysig iawn”, gyda chanran sylweddol (23.2%) yn nodi “eitha pwysig”. Golyga hynny fod 97.5% o’r bobl a holwyd yn ystyried cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn bwysig neu’n bwysig iawn.

“Mae'r cyfrwng mor ddylanwadol”

“Mae pobl yn treulio llawer iawn o'u bywydau ar-lein ac felly mae'n parh bwysig iawn ar gyfer sicrhau defnydd ymarferol yr iaith.”

Mae'r ymatebion a roddwyd yn adlewyrchu ymwybyddiaeth unigolion o bwysigrwydd a dylanwad y rhwydweithiau cymdeithasol fel cyfrwng cyfathrebu modern.

4.2.5 Newid Arferion Iaith ar y Rhwydweithiau: Ffactorau a Chyfleoedd i Ddylanwadu

Awydd i Newid y Defnydd o'r Gymraeg

Fe ofynnwyd cwestiwn uniongyrchol ar yr holiadur: “Hoffech chi newid eich defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol?”. Er i'r mwyafrif o bobl ddatgan nad ydynt am newid nid oedd yn fwyafrif sylweddol, gyda 40.2% yn datgan eu bod nhw am newid eu defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau yn y dyfodol.

Rhoddyd opsiwn hefyd i'r ymatebwyr ychwanegu sylwadau i gyd-fynd â'u hatebion. O'r 40.2% a atebodd “ydw” gadawodd 60 o bobl sylwadau, gyda'r mwyafrif ohonynt - 40 o sylwadau allan o 60 - yn ymwneud â dyheadau unigolion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau, naill ai ganddyn nhw yn bersonol, neu gan bobl eraill. Mae'r sylwadau isod yn adlewyrchu'r math o sylwadau a roddwyd sy'n ymwneud â chynyddu defnydd:

“Dw i eisiau defnyddio mwy o Gymraeg - gyda mwy o bobl”

“Hoffwn wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg”

“Eisiau darganfod mwy o ffrindie sy'n siarad Cymraeg yn gyson”

“Hoffwn allu [cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg] ond ffrindiau yn dewis Saesneg”

Mae'r cwmwl geiriau isod yn dangos y geiriau a ddefnyddiwyd yn fwyaf aml yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ynglŷn â newid y defnydd o'r Gymraeg. Gwelwyd bod y geiriau “mwy”, “cynyddu”, “defnydd”, “defnyddio” ymysg y rhai mwyaf poblogaidd sy'n adlewyrchu naws y rhan fwyaf o'r ymatebion ansoddol.

ymatebion amrywiol iawn o ran maint a manylder ond roedd yn bosib categoreiddio rhan helaeth o'r ymatebion i'r themâu canlynol:

Cynyddu Defnydd, Dewis Iaith a Chyfranogi

Allan o'r holl sylwadau gan yr ymatebwyr roedd sylwadau yn ymwneud â chynyddu defnydd, cyfranogi yn yr iaith o'u dewis a pharchu dewis iaith unigolion y rhai mwyaf cyffredin. Yn aml roedd yr ymatebwyr yn nodi cynyddu defnydd a'r dewis i gyfranogi'n ddwyieithog, neu yn y Gymraeg yn unig:

“Dw i'n meddwl ei bod yn bwysig i arfer eu defnyddio fwy”

“Cymraeg yw fy mhrif iaith / fy newis iaith - a'r iaith dw i eisiau cyfranogi fwyaf ynddi ac iddi. Ac mae cyfranogi yn rhan allweddol o'r we a'r rhwydweithiau cymdeithasol.”

Roedd sylwadau eraill yn rhybuddio bod hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau yn holl bwysig oherwydd dylanwad y Saesneg:

“Mae Saesneg yn bodoli ym mhob man - os nad ydym yn gallu defnyddio rhwydweithiau yn y Gymraeg mae'n golygu nad ydym yn gallu defnyddio'r iaith yn naturiol ac yn ddyddiol”

“I want to be a part of a living Welsh language and not just a theoretical one.”

Gwella Sgiliau a Chodi Hyder

Rheswm eithaf poblogaidd arall a nodwyd gan ymatebwyr yw eu bod nhw am gynyddu neu gynnal eu defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau er mwyn gwella neu gynnal lefel eu sgiliau yn y Gymraeg. Mae'r sylwadau yn awgrymu bod rhai pobl yn ymwybodol o'r pwysigrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn cynnal eu sgiliau, ac y byddai llai o ddefnydd ohoni yn arwain at golled o'r sgiliau, hyder neu ruglder yn y dyfodol:

“Mae [defnyddio'r rhwydweithiau] yn helpu fi dysgu a chodi hyder i ddefnyddio fy Cymraeg”

“Dw i'n defnyddio'r iaith er mwyn cadw fy Nghymraeg”

“Nawr fy mod yn mynychu coleg yn lle'r chweched dosbarth yn Ysgol Gymraeg, mae llawer llai o bobl yma yn medru siarad Cymraeg. Nid wyf am gollir iaith, felly rydw i'n eisiau ei defnyddio mwy.”

“It would help me learn idioms, and feel more comfortable using the language [...] I have very little opportunity to practice Welsh except with my husband some evenings.”

Mae'n werth nodi eto bod yr astudiaethau ymchwil eraill gan Beaufort (2013) a Cunliffe, Prys a Morris (2012) sy'n ystyried y defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol hefyd yn nodi hyder fel ffactor sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith unigolion ar-lein.

Dylanwad Pobl Eraill

Ffactor arall a nodwyd gan nifer o'r ymatebwyr oedd dylanwad pobl eraill, neu ddylanwad ystyried pobl eraill fel “cynulleidfa” di-Gymraeg. Yn ogystal â bod yn rheswm a roddwyd gan

bobl dros gynyddu eu defnydd er mwyn normaleiddio'r defnydd ohoni mae defnydd iaith pobl eraill, a gallu pobl eraill i siarad Cymraeg neu beidio, hefyd yn rhwystr, fel mae'r sylwadau isod yn eu hawgrymu:

"Allai ddim â deall pam bod Cymry Cymraeg yn mynnu dweud pethau cyffredinol yn Saesneg yn unig wrth y byd"

"Hoffwn i ddefnyddio mwy o Gymraeg ond mae'n anodd, yn enwedig ar Facebook, gan fod cyn lleied o'n ffrindiau/teulu yn siarad Cymraeg"

Gan ystyried dylanwad y Saesneg yng Nghymru ac ar y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol yn y byd go iawn nid oedd y sylwadau a'r adborth hyn yn annisgwyl. Yn ogystal, gan ystyried natur gyfranogol a chyhoeddus y rhwydweithiau cymdeithasol yn gyffredinol mae'n debyg iawn bod dylanwad y Saesneg ac ieithoedd eraill yn dylanwadu hyd yn oed yn fwy ar ddefnydd y Gymraeg fel iaith leiafrifol, gan fod pobl *"am i bawb ddeall"* fel nododd un o'n ymatebwyr.

Technoleg a'r Gymraeg

Maes a godwyd yn aml iawn gan yr ymatebwyr drwy'r holiadur a'r grwpiau ffocws oedd technoleg, a datblygiadau technoleg trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 14 allan o 60 o ymatebwyr i gwestiwn 17, *"Hoffech chi newid eich defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol?"*, wedi nodi pwysigrwydd argaeledd y dechnoleg cyfrwng Cymraeg ei hun, gan gynnwys rhyngwynebau Cymraeg, gyda nifer o'r ymatebwyr yn enwi Twitter a rhwydweithiau eraill yn benodol:

"Hoffwn i gael rhyngwynebau Cymraeg ar y rhai [y rhwydweithiau] dw i'n eu defnyddio"

"Sa fo'n braf gweld fwy o gefnogaeth dechnegol i'r iaith gan lwyfannau fel Twitter a YouTube"

"Mwy o Gymraeg ar LinkedIn ac Internet Dating"

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyfeiriwyd at dechnoleg yn benodol o'r farn bod diffyg datblygiadau technoleg yn y Gymraeg yn rhwystr ar hyn o bryd:

"[Mae] gormod o lefydd ar y we yn hanner ymateb i'r angen am ddwyieithrwydd felly does gen i ddim cyfle i wneud popeth yn Gymraeg"

"Dydy'r dechnoleg ddim yn ei le ar gyfer rhyngwyneb Cymraeg i Twitter, Instagram, Snapchat, Myspace, a.y.b"

"Mae'r spellcheck ar yr iphone / ipad yn gwneud defnyddio'r Gymraeg yn fwy o ymdrech, o lawer"

"I wish my devices wouldn't auto correct Welsh words all the time"

Ar yr un pryd mae'n ddiddorol i ystyried bod cwestiwn arall ar yr holiadur sy'n gofyn ynglŷn â'r dylanwad y mae rhyngwyneb y rhwydweithiau yn ei chael ar eu defnydd iaith mae rhan sylweddol o'r ymatebwyr (34.6%) wedi dweud nad yw rhyngwyneb y rhwydweithiau cymdeithasol yn effeithio ar eu defnydd iaith o gwbl. Er bod hyn yn nifer sylweddol o bobl nad ydynt yn teimlo bod iaith y rhyngwyneb yn effeithio ar eu defnydd iaith, mae'r gweddill, sef 65.4%, yn teimlo bod iaith y rhyngwyneb yn effeithio eu defnydd o'r Gymraeg i ryw raddau.

Ar y cyfan mae'r adborth ansoddol yn awgrymu bod iaith y rhyngwyneb a'r datblygiad o dechnoleg cyfrwng Cymraeg yn ffactor bwysig sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith unigolion, a tra bod diffyg datblygiadau mewn rhai agweddau yn rhwystr mae'r potensial i ddatblygu technoleg cyfrwng Cymraeg ymhellach, a'r ymdrechion presennol gan fudiadau a sefydliadau â chyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg, yn galonogol.

4.3 Grwpiau Ffocws

Yn ogystal â'r holiadur electronig fe gynhaliwyd grwpiau ffocws gyda 30 o Swyddogion Maes y Mentrau Iaith ym mis Chwefror 2014. Fe ganolbwyntiodd y grwpiau ffocws ar y cwestiynau canlynol:

- *Beth yw eich profiadau personol a phroffesiynol ar Twitter / Facebook a rhwydweithiau cymdeithasol eraill?*
- *Beth fyddai'n cymhell newid o ran y defnydd o'r Gymraeg?*
- *Enghreifftiau o ymarfer da?*

4.3.1 Profiadau Personol

I ddechrau fe roddwyd cyfle i'r Swyddogion drafod yn agored ynglŷn â'u profiadau nhw o'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Fe drafodwyd eu profiad personol nhw o safbwynt unigolion a hefyd eu profiadau proffesiynol trwy eu gwaith gyda'r Mentrau Iaith ar lawr gwlad. Er i'r trafodaethau fod yn eang ynglŷn â phrofiadau personol roedd yna themâu a godwyd gan nifer o'r swyddogion a ddisgrifir isod. Fe godwyd nifer o bwyntiau a phynciau sydd yn debyg iawn i'r rheini a godwyd gan yr ymatebwyr i'r holiadur, sef:

- **Defnydd ac arferion iaith gan eraill** - mae tueddiad gan y mwyafrif helaeth o bobl i ddefnyddio'r Saesneg yn unig gyda chynulleidfa "Saesneg" mewn cof.
- **Hyder** - yn anecdotaid mae diffyg hyder gan ddysgwyr a phobl sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ffactor sy'n dylanwadu'n negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg.

Y Cyfrwng

Fe nodwyd gan nifer o swyddogion bod y cyfryngau cymdeithasol yn gyfryngau heriol i gyfathrebu arnynt mewn iaith leiafrifol neu yn ddwyieithog. Nodwyd bod nifer o sefydliadau (rhai Cynghorau Sir, Canolfan y Mileniwm) â ffrydiau Twitter a chyfrifon Facebook Cymraeg a Saesneg ar wahân ac mae hi'n benderfyniad yr unigolyn sydd am eu dilyn pa iaith maen nhw'n ei dewis. Roedd y mwyafrif o'r swyddogion o'r farn nad yw'r modd hwn o gyfathrebu yn effeithiol o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg a chodi'r defnydd ohoni am sawl rheswm:

- Nid yw'n integreiddio'r Gymraeg a'r Saesneg
- Nid yw pawb yn ymwybodol bod yna gyfrif cyfrwng Cymraeg yn bodoli
- Mae'r mwyafrif o bobl yng Nghymru â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg - hyd yn oed os yn ambell air neu ddywediad - pam wneud i bobl ddi-Gymraeg gorfod gweld negeseuon Saesneg yn unig?
- Mewn rhai achosion mae'n debyg bod cyfrifon cyfrwng Saesneg yn cael eu

blaenoriaethu gan fudiadau a chwmnioedd sydd weithiau yn gorfod rhyddhau negeseuon ar frys, heb amser i aros i negeseuon gael eu cyfieithu.

Fe gytunwyd bod cyfathrebu'n ddwyieithog o un cyfrif yn arfer da ar y rhwydweithiau cymdeithasol ac y dylid annog hyn gan fudiadau, sefydliadau a chwmnïau.

Technoleg

Pwnc arall a godwyd gan y Swyddogion oedd technoleg a'r Gymraeg. Mae'r prif bwyntiau a godwyd yn debyg iawn i'r adborth a'r sylwadau a nodwyd gan ymatebwyr i'n holiadur, sef:

- diffyg datblygiadau o ran rhyngwynebau Cymraeg i rai o'r cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Twitter
- bod "autocorrect" yn achosi trafferthion wrth geisio ysgrifennu negeseuon yn gyflym

Rhywbeth arall a nodwyd gan y grwpiau ffocws yw'r ffaith bod rhaid i unigolion, mudiadau a chwmnïau sydd am gyfathrebu yn Gymraeg ar Twitter fod hyd yn oed yn fwy cynnil oherwydd bod llythrennau Cymraeg yn cyfri fel mwy nag un llythrennau - e.e. ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Er nad yw hyn i'w weld fel problem fawr ar yr wyneb mae'n wir bod gan unigolion sy'n defnyddio Twitter â llai o lythrennau i gyfleu eu negeseuon. Er enghraifft mae'r neges Twitter isod gan un Fenter Iaith yn defnyddio 126 o lythrennau yn y Gymraeg, ond fe gyfrir fel 139 o lythrennau ar Twitter:

*A hoffech **chi** wirfoddoli yn wyl **Ffiliffest eleni? Cysylltwch â ffionrees@mentercaerffili.org os oes gennych **ddiddordeb** bod yn **rhan** o'r tîm!***

Er nad oes gwahaniaeth mawr rhwng y nifer o lythrennau mae Twitter yn eu cyfrif mae'n ddigon posib bod hyn yn rhwystr i ddefnyddwyr gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg ar Twitter, yn enwedig i unigolion sy'n defnyddio'r rhwydweithiau i gyfathrebu'n bersonol.

Beirniadaeth a Chywirdeb Iaith

Nododd nifer o Swyddogion eu bod nhw wedi cael eu beirniadu yn y gorffennol am beidio â defnyddio Cymraeg safonol neu am gam-dreiglo ar y rhwydweithiau cymdeithasol, a hefyd eu bod nhw'n ymwybodol o unigolion eraill maen nhw yn eu hadnabod yn lleol sydd wedi profi'r un peth. Cafwyd cefnogaeth unfrydol i'r syniad bod unrhyw ddefnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol i'w croesawu a'u hannog gan bobl o bob oedran a gallu, yn enwedig gan ddysgwyr neu siaradwyr weddol rugl sydd angen codi eu hyder. Hefyd er bod cydnabyddiaeth i bwysigrwydd cywirdeb iaith ar y rhwydweithiau cymdeithasol ac yn gyffredinol, roedd gwell gan y Swyddogion bod pobl yn defnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt heb boeni am wneud camgymeriadau.

Dylanwad a Chyfrifoldeb Mudiadau, Cwmnïau a Sefydliadau

Nodwyd gan sawl Swyddog yr angen i'r Gymraeg ddod yn fwy gweladwy a chlywadwy ar y rhwydweithiau a'i bod hi'n gyfrifoldeb cyrff ym mhob sector - nid unigolion ar ben eu hunain - i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Fe dderbyniwyd bod hyn yn bwynt holl bwysig a gallwn dynnu cymariaethau rhwng y defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol â'r byd go iawn: os yw'r iaith yn weledol a chlywedol mewn swyddfa neu siop mae'r cwsmer Cymraeg yn

llawer mwy tebygol o gyfathrebu â staff yn y Gymraeg ac i fanteisio ar unrhyw wasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Mae'r un peth yn wir am y Gymraeg yn y byd digidol ac mae cyfrifoldeb ar gyrrff i ystyried sut y maent yn cyfathrebu â'u cwsmeriaid sy'n medru'r Gymraeg.

Yn ogystal gwelwyd cyfle i integreiddio'r Gymraeg ac egwyddorion chyfathrebu'n ddwyieithog i mewn i hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol i gyrrff ym mhob sector.

4.3.2 Beth Fyddai'n Cymell Newid o ran Defnydd y Gymraeg?

Yn ogystal â'r profiadau a ddisgrifiwyd uchod sy'n nodi pa feysydd sydd angen gweithredu ynddynt fe nodwyd y pwyntiau isod gan y grwpiau:

Dwyieithrwydd Naturiol

Yn ôl nifer o ymatebwyr yn y grwpiau ffocws y prif amcan ar gyfer y dyfodol yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy normaleiddio'r defnydd ohoni, a bod hynny'n golygu hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg naturiol a dwyieithrwydd naturiol. Fe nodwyd un grŵp bod cyfieithu negeseuon yn "robotaid" â'n aml yn ddiflas i'r rheini sy'n medru darllen negeseuon yn y ddwy iaith. Yn lle wneud hynny fe gynigiwyd y byddai cyfathrebu mewn modd mwy naturiol yn well, gan ddefnyddio cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn dibynnu ar natur y neges neu gynnwys mae'r person am rannu.

Dylanwad Enwogion

Fe nodwyd pob grŵp bod y defnydd o'r Gymraeg gan enwogion yn bwysig ac yn ddylanwadol, yn enwedig wrth ystyried bod y cyfryngau cymdeithasol yn gwneud hi'n haws i "ddilyn" a chyfathrebu gydag enwogion mewn modd cyhoeddus. Er i bob grŵp nodi bod cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan enwogion sy'n medru ei siarad yn gyfle y gellid ceisio gweithredu arno fe fynegwyd siom gan nifer o'r cyfranogwyr oedd yn rhwystredig â chyn lleied o'r Gymraeg a ddefnyddir gan rai unigolion sy'n enwog oherwydd eu gyrfaoedd yn y cyfryngau Cymraeg neu'r byd chwaraeon yng Nghymru.

Mwy o Gynnwys Cyfrwng Cymraeg

Yn debyg i'r adborth a gawsom gan ymatebwyr i'r holiadur mae diffyg cynnwys cyfrwng Cymraeg yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith ar y rhwydweithiau. Fe nodwyd fod natur ac iaith negeseuon a chynnwys mae unigolion yn eu rhannu yn dylanwadu, yn ddigon naturiol, ar eu defnydd iaith wrth adael sylwadau.

4.3.3 Enghreifftiau o Arfer Da

Fe nodwyd nifer o weithredoedd ac ymgyrchoedd syml gan y Swyddogion fel enghreifftiau o arfer da sydd wedi arwain at greu mwy o gynnwys cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol, megis:

- delweddau e.e "Gwenwch mae'n Ddydd Gwener" - enghreifftiau o luniau â *slogan* fel hyn wedi dod o Pobl Caerdydd a thudalen "Cymraeg" a weinyddir gan Llywodraeth Cymru
- defnyddio hashnodau (#) Cymraeg ar gyfer negeseuon a chynnwys cyfrwng Cymraeg yn lle un hashnod cyfrwng Saesneg ar gyfer ymgyrchoedd neu brosiectau

- Fideos
 - y fideo “atalnodi” <https://www.youtube.com/watch?v=APfFTP71E2E>
 - ymgyrch calon lân y BBC <http://www.bbc.co.uk/sport/0/rugby-union/25870657>
 - fideos yn yr iaith Wyddeleg gan TG Lurgan
<https://www.youtube.com/watch?v=Hz63M3v11nE&list=PLnSq1mdHpk0aCXO9wL8gzgGagRRXKHCFa>
- #yrawrgymraeg
- Ymgyrchoedd “her yr wythnos” neu “Gair y dydd” i ddysgwyr - pethau rheolaidd, bach, cronnus

I Gloi

Trwy gynnal y gwaith ymchwil hwn rydym wedi cydnabod y prif ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg gan ungiolion ar y rhwydweithiau cymdeithasol, yn ogystal â chyfrannu at yr astudiaethau ymchwil a gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â defnydd iaith ar y rhwydweithiau yma yng Nghymru.

Mae prif ganfyddiadau ein gwaith a ddisgrifiwyd yn y crynodeb gweithredol ac yn adran 4.1 yn awgrymu'n gryf bod y rhwydweithiau cymdeithasol yn gyfryngau allweddol y mae angen i gynllunwyr iaith ddylanwadu arnynt yn y dyfodol, a bod yna waith pellach i'w wneud er mwyn newid agweddau ac ymddygiad siaradwyr Cymraeg o bob oedran a gallu i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau.

Y prif ganfyddiad sydd angen gweithredu arno yw diffyg defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol, ond hefyd gan siaradwyr Cymraeg hyderus, â defnydd rheolaidd o'r Gymraeg yn agweddau eraill o'u bywydau, nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn aml neu o gwbl ar y rhwydweithiau. Fel cyfrwng cyfathrebu mor boblogaidd a dylanwadol mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol a digidol yn faes y dylai a gallai gyfrannu'n fawr at y nod hirdymor o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ar lawr gwlad.

Atodiad 1 - Cwestiynau'r Holiadur

1. Ym mha iaith hoffech chi gwblhau'r holiadur hwn?
In which language would you like to complete this questionnaire?
Cymraeg / Saesneg (cyfeirio at fersiwn Saesneg)

2. Beth yw eich côd post?

3. Beth yw eich oedran?

Dan 12

12 - 16

16 - 24

25 - 40

41 - 60

61 - 80

Dros 80

3. Ydych chi'n berchen ar:

Cyfrifiadur desg

Gliniadur

Cyfrifiadur llechen

Ffôn clyfar

Dim un o'r uchod

4. Ydych chi'n gwryw / benyw?

5. O'r bobl sy'n byw gyda chi, pwy sy'n medru'r Gymraeg?

Mam a Dad

Mam

Tad

Gwarchodwr

Brawd / brodyr

Chwaer / chwiorydd

Mab / meibion

Merch / merched

Gŵr / gwraig / partner

Neb

6. Ydych chi'n ystyried eich hunan yn:

Siaradwr Cymraeg rhugl

Siaradwr ail iaith sy'n rhugl

Dysgwr

Dw i ddim yn siarad Cymraeg o gwbl

7. Nodwch lefel eich sgiliau yn y Gymraeg isod:

Siarad

Darllen

Ysgrifennu

8. Siarad: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg...?

Gyda'ch ffrindiau yn y gwaith / ysgol?

Gyda'ch ffrindiau y tu allan i'r gwaith / ysgol?

Gyda'ch teulu yn y cartref?

Mewn gweithgareddau?

9. Darllen: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddarllen?

Llyfrau

Cylchgronau

Papur Newydd

Y wê (e.e. newyddion, e-byst)

Rhwydweithiau cymdeithasol

10. Ysgrifennu: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth ysgrifennu...

Ebyst

Ar y rhwydweithiau cymdeithasol

Nodiadau personol

Dogfennau ar y cyfrifiadur

11. Ydych chi'n defnyddio unrhyw rwydweithiau / gwefannau cymdeithasol? (e.e. Facebook, Twitter, LinkedIn, Youtube, Google+, Pinterest, Instagram, Flickr, Tumblr)

Ydw

Nac ydw → cau'r holiadur

12. Isod mae rhestr o rwydweithiau a gwefannau cymdeithasol. Nodwch pa rai rydych chi yn eu defnyddio a pha iaith rydych yn tueddu defnyddio. Mae "defnyddio" yn golygu: - edrych ar neu ddarllen cynnwys ar y rhwydweithiau ; - postio sylwadau, cynnwys neu gyfathrebu ar y rhwydweithiau - unrhyw weithgarwch arall

13. Ar gyfer beth rydych chi'n defnyddio'r rhwydweithiau hyn yn bennaf?

Cadw mewn cyswllt â ffrindiau / teulu

Ymchwil

Ymgyrchu a Dylanwadu

Hyrwyddo (e.e. digwyddiadau)

Rhoi Barn

14. Ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer dibenion...

Gwaith

Personol

Y ddau

15. Ydych chi'n defnyddio'r rhyngwyneb (interface) Cymraeg ar gyfer unrhyw rwydweithiau / gwefannau cymdeithasol?

Ydw

Nac ydw

16. Hoffech chi newid eich defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol?

Hoffwn

Na hoffwn

17. Sut hoffech chi newid eich defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol?

Hoffwn i ddefnyddio mwy o Gymraeg

Hoffwn i ddefnyddio llai o Gymraeg

Arall

18. Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 18?

[Sylwadau]

19. Pa ffactorau rydych chi'n meddwl sy'n dylanwadu ar eich defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol? (1 = mwyaf dylanwadol; 5 = lleiaf dylanwadol; os nad yw'n dylanwadu dewiswch "ddim yn dylanwadu")

Defnydd iaith gan ffrindiau

Natur y neges dw i am rannu

Fy hyder yn y Gymraeg

Defnydd iaith y bobl dw i am weld y neges

Rhyngwyneb y rhwydwaith

20. Oes yna unrhywbeth sydd yn eich rhwystro rhag defnyddio Gymraeg ar rwydweithiau cymdeithasol?

Oes

Nac oes

Dw i ddim yn siŵr

21. Yn eich barn chi pa mor bwysig yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol?

Pwysig iawn

Eitha pwysig

Ddim yn bwysig iawn

Ddim yn bwysig o gwbl

22. Ydych chi'n adnabod unrhyw siaradwyr Cymraeg sy ddim yn defnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol?

Ydw


Nac ydw

23. Oes na unrhyw beth arall hoffech chi nodi ynglŷn â'r Gymraeg a'r rhwydweithiau cymdeithasol?

[Sylwadau]


Atodiad 2 - Ymatebion i'r Holiadur

1. Ym mha iaith hoffech chi gwblhau'r holiadur hwn?




2. Beth yw eich cod post? [dim siart]


3. Beth yw'ch oedran?




4. Ydych chi'n berchen ar:




5. Ydych chi'n gwryw / benyw?




6. O'r bobl sy'n byw gyda chi, pwy sy'n medru'r Gymraeg?




7. Ydych chi'n ystyried eich hunan yn:




8. Nodwch lefel eich sgiliau yn y Gymraeg isod:




9. Siarad: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?




10. Darllen: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddarllen?




11. Ysgrifennu: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth ysgrifennu?




12. Ydych chi'n defnyddio unrhyw rhwydweithiau / gwefannau cymdeithasol? (e.e Facebook, Twitter, LinkedIn, Youtube, Google+, Pinterest, Instagram, Flickr, Tumblr)




13. Y 4 ateb mwyaf poblogaidd




14. Ar gyfer beth rydych chi'n defnyddio'r rhwydweithiau hyn yn bennaf?




15. Ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer dibenion...




16. Ydych chi'n defnyddio'r rhyngwyneb (interface) Cymraeg ar gyfer unrhyw rwydweithiau / gwefannau cymdeithasol?



17. Hoffech chi newid eich defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol?



18. Sut hoffech chi newid eich defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol?




19. Beth yw eich rhesymau am eich ateb i gwestiwn 19? [sylwadau - dim siart]


20. Pa ffactorau rydych chi'n meddwl sy'n dylanwadu ar eich defnydd o'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol? (1= mwyaf dylanwadol; 5=lleiaf dylanwadol; os nad yw'n dylanwadu dewiswch "ddim yn dylanwadu")

	1	2	3	4	5	Ddim yn dylanwadu
Defnydd iaith gan ffrindiau	25%	20.5%	25%	10.4%	3.1%	15.8%
Natur y neges neu'r cynnwys dwi am ei rannu	22.4%	30.6%	19.9%	10.1%	3.1%	13.6%
Fy hyder yn y Gymraeg	12.3%	12.9%	12.9%	12.3%	11.3%	37.9%
Defnydd iaith y bobl dwi am weld y neges	27.8%	22.1%	18.9%	15.8%	3.7%	11.3%
Rhyngwyneb (interface) y rhwydwaith	5.3%	3.8%	8.2%	20.8%	27.3%	34.6%

21. Oes yna unrhywbeth sydd yn eich rhwystro rhag defnyddio'r Gymraeg ar rwydweithiau cymdeithasol?



22. Yn eich barn chi pa mor bwysig yw cynyddu'r defnydd ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn y dyfodol?



23. Ydych chi'n adnabod unrhyw siaradwyr Cymraeg sy ddim yn defnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol?

